# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards and N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Councillors I. Buckley, L. Burnett ((Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau) , C.E.A. Champion, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

## 566 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 567 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd S.J. Haines.

## 568 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2022 fel cofnod cywir.

## 569 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 570 CYFLWYNIAD: GWELLA LLES YN Y GWEITHLE.

Rhoddwyd y cyflwyniad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, a esboniodd wrth aelodau'r Pwyllgor fod yr Adran Adnoddau Dynol wedi ymroi'n rhagweithiol i wella llesiant yn y gweithle i holl gyflogeion y Cyngor, ar draws yr holl sefydliad, gan gydnabod bod hyn yn cynnwys ysgolion, cartrefi gofal a staff

eraill ar y rheng flaen fel criwiau'r amgylchedd a gwastraff. Roedd hyn hefyd yn gysylltiedig â'r adroddiad ar salwch ac absenoldeb a fyddai'n cael ei gyflwyno'n ddiweddarach yn y cyfarfod, fel ffordd o ddatrys y materion hyn.

Ymagwedd amlddisgyblaethol oedd hon, a oedd yn cynnwys nifer o dimau ar draws yr holl Gyngor (yn amrywio rhwng Iechyd Galwedigaethol hyd at Ddatblygu Sefydliadol (DS), yr oedd eu rolau allweddol a'r gwaith yr oeddent yn ei gyflawni wedi'u hamlinellu), ynghyd â rheolwyr ar bob lefel. Roedd hefyd yn cynnwys ymgysylltu'n weithredol â staff ar bob lefel, hy, drwy'r arolygon staff a'r defnydd o Hyrwyddwyr Llesiant (yr Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl gynt) a gweithgareddau cysylltiedig, yn ogystal â chysylltu â grwpiau a rhwydweithiau cymorth amrywiol (hy, GLAM, y rhwydwaith cymorth LHDTC+).

Roedd gan y Cyngor broses gadarn iawn i reoli absenoldeb a oedd wedi'i chefnogi gan ei Dîm Iechyd a Diogelwch a geisiai gefnogi'r unigolion hynny sydd wedi gorfod bod yn absennol am gyfnodau.

Her allweddol i'r staff bellach, yn dilyn y pandemig, oedd yr argyfwng costau byw, gyda 91% o'r staff a ymatebodd i'r arolwg staff diweddar yn nodi bod hyn yn cael effaith sylweddol ar eu hiechyd a'u llesiant. Roedd y Cyngor felly'n gweithredu i geisio datrys hyn, hy, gweminar DS i ymdrin â'r materion dan sylw.

Cyfeiriwyd at y Cynllun Gweithredu 'Amser i Newid', a oedd yn cael ei ddiweddaru a'i adolygu'n fisol yn rhan o'r broses o roi themâu, polisïau a gweithgareddau iechyd a llesiant (hy, y menopos, cwsg ac ati) ar waith o fewn y Cyngor ac ar y cyd â phartneriaid (hy, Yr Undebau Llafur).

Ar ôl y cyflwyniad, cododd y Pwyllgor y canlynol:

- Dywedodd y Cynghorydd Dr Johnson ei bod yn hynod ddefnyddiol i Gynghorwyr weld y 'darlun mawr' hwn o'r sefyllfa iechyd a llesiant, yn ogystal â'r agweddau y cyfeiriwyd atynt wrth basio yn yr adroddiad rheolaidd ar absenoldeb a ddarparwyd. Roedd hi hefyd yn bwysig peidio gwanio'r cymorth, y gefnogaeth a'r cyfeiriadau a roddir yn gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl, wrth ailfrandio i ddefnyddio'r gair 'llesiant', a rhoi pwyslais ehangach ar hynny yn hytrach nag ar iechyd meddwl yn unig.
- Ar ymholiad y Cynghorydd Loveluck-Edwards ynghylch natur a fformat yr arolygon staff a ddefnyddiwyd (a oeddent wedi'u cynllunio'n arbennig neu'n gyffredinol, a oeddent yn ddienw ac ati). esboniwyd bod yr arolygon yn ddienw, er bod cwestiynau wedi'u cynnwys yn ymwneud â hil, ethnigrwydd a Chyfarwyddiaeth, er mwyn cael adborth wedi'i deilwra'n well am feysydd gwaith penodol. Roedd Adnoddau Dynol (AD) bob amser yn awyddus i wella ac addasu'r arolygon ac roeddent am annog staff i fynegi barn yn gwbl ddi-flewyn-ar-dafod. Ynghylch ymholiad arall y Cynghorydd am reoli absenoldeb a hyfforddiant / cymorth i reolwyr, yn ogystal â chroesawu adborth gan staff wrth ddychwelyd i'r gwaith, cafodd rheolwyr gefnogaeth gan y Tîm Partneriaid Busnes er mwyn cynnal sgyrsiau â'r staff ynghylch dychwelyd yn raddol i'r gwaith, adleoli ac ati yn dilyn cyfnod o absenoldeb / salwch, yn ogystal â gofyn am adborth gan reolwyr a staff er mwyn gwella'r broses.

- Yn dilyn cwestiwn gan y Cynghorydd Hanks ynghylch y ffaith bod costau byw yn cael effaith weithredol ar 91% o'r staff, fel y nodwyd yn y cyflwyniad, eglurwyd bod y ffigur o 91% o blith y staff a oedd wedi ymateb i'r arolwg, ac nad oedd y ganran honno felly'n cynrychioli'r holl staff. Cyfradd ymateb yr arolwg oedd ychydig dan 50% o staff y Cyngor, ond roedd hyn yn dal yn golygu bod pryderon ynghylch costau byw yn effeithio ar nifer sylweddol o staff; oherwydd hyn, roedd y Cyngor wedi datblygu 'hyb' costau byw ar Staffnet i gynnig cymorth i staff.

Ar ôl ystyried y cyflwyniad,

ARGYMHELLWYD – Nodi’r cyflwyniad ar Wella Lles yn y Gweithle.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

571 CH2 ADRODDIAD ABSENOLDEB SALWCH 2022/2023 (CYF) –

Cafodd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 17 Tachwedd 2022 ei gyflwyno gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadol, a esboniodd fod y sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor yn flaenorol ar yr adroddiadau absenoldeb salwch chwarterol bellach wedi'u cynnwys yn yr adroddiad diweddaraf, ac roedd gwaith yn cael ei gyflawni arnynt er mwyn adrodd yn y dyfodol, hy, cymharu absenoldeb salwch ag Awdurdodau Lleol eraill, agweddau ar bresenoliaeth a rhesymau penodol yr oedd pobl yn eu rhoi am fod yn absennol, straen (straen yn gysylltiedig â gwaith a phethau eraill) ac ati, yn ogystal â'r rhesymau mwyaf cyffredin dros absenoldeb wedi'u dadansoddi yn ôl Cyfarwyddiaeth. O ran y sylw a wnaed gan y Pwyllgor ynghylch cydweithio â sefydliadau fel Prifysgol Caerdydd er mwyn helpu i gynnal dadansoddiad ystadegol o ddata absenoldeb salwch, cysylltwyd â Phrifysgol Caerdydd i weld a ellid gwneud hyn, ac i ofyn am unrhyw awgrymiadau ynghylch sut i gyflwyno'r data hynny'n well.

Roedd y prif bwyntiau a godwyd yn yr adroddiad yn cynnwys cynnydd mewn cyfraddau absenoldeb, yn rhannol oherwydd newidiadau wrth gofnodi absenoldeb salwch yn dilyn Pandemig COVID-19. Gwelwyd y cynnydd hwn yn arbennig mewn absenoldeb oherwydd straen nad oedd yn gysylltiedig â'r gwaith, ac roedd dadansoddiad o'r rhesymau am hynny wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Fodd bynnag, roedd y gwrthwyneb yn wir yn achos absenoldeb oherwydd straen yn gysylltiedig â'r gwaith, gyda'r niferoedd hynny mewn gwirionedd yn gostwng, gan ostwng yn is na'r pum prif reswm dros absenoldeb mewn nifer o Gyfarwyddiaeth (ac eithrio'r Amgylchedd a Thai, lle roedd sylw'n cael ei roi i gynnydd yn y categori absenoldeb hwn). Roedd AD yn edrych ar y ffactorau amrywiol yn ymwneud â straen (hy y pandemig a'r argyfwng costau byw) er mwyn gweld sut y gellid cefnogi staff yr oedd hyn yn effeithio arnynt. Yn ogystal â hynny, roedd gwaith yn dal ar y gweill i ddadansoddi unrhyw gydberthynas uniongyrchol bosibl rhwng cyfraddau absenoldeb a chyfraddau swyddi gwag ar draws y Cyngor, ac nid oedd unrhyw arwydd clir bod y naill yn effeithio ar y llall ar hyn o bryd.

Ar ôl cyflwyno’r eitem a gyfeiriwyd, codwyd y canlynol gan y Pwyllgor:

- Mewn ymateb i ymholiad y Cadeirydd ynghylch effaith gweithlu sy'n heneiddio ar absenoldeb salwch y Cyngor, esboniwyd bod cyfran sylweddol o weithlu'r Cyngor dros 55 oed, ac roedd y Cyngor yn ystyried sut y gallai ddenu grwpiau oedran iau. Fodd bynnag, roedd gweithlu sy'n heneiddio hefyd yn golygu gweithlu ac ynddo lawer o sgiliau a chymhwysedd, ac roedd angen i'r Cyngor ystyried sut roedd yn cefnogi llesiant y grŵp hwn.
- Awgrymodd y Cynghorydd Dr. Johnson y byddai'n fuddiol cynnwys y materion mwyaf trawiadol yn y crynodeb gweithredol / prif faterion i'w hystyried yn yr adroddiad, mewn adroddiadau yn y dyfodol, a chynnwys y tablau a'r siartiau cysylltiedig mewn atodiad neu atodiadau ar wahân er mwyn i'r adroddiad fod yn fwy hygyrch a chryno.  Pwysleisiodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Wood yr angen parhaus i gynnwys y data cefndir a'r sylfaen dystiolaeth mewn adroddiadau yn y dyfodol, fodd bynnag, er mwyn deall yn llawn, mynd at wraidd y manylon, a helpu drwy hynny i oresgyn yr heriau'n gysylltiedig ag absenoldeb salwch.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Loveluck-Edwards at effaith yr argyfwng costau byw ar staff a’u hiechyd meddwl a’u llesiant. Roedd hyn hefyd yn golygu bod yn rhaid i'r Cyngor drefnu adnoddau er mwyn helpu i gefnogi ei weithlu. Nododd hefyd y gwaith a'r ymdrech lew a gafwyd gan y Cyngor er mwyn helpu i liniaru straen yn gysylltiedig â gwaith, yn ogystal â phwysigrwydd a pherthnasedd y data a ddarparwyd ar absenoldeb.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd a'r adroddiad a oedd wedi'i atodi,

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi cyfeiriad y Cabinet ac adroddiad atodedig y Cabinet.

(2) Ar gyfer adrodd absenoldeb salwch yn y dyfodol, bod y pwyntiau a'r materion pwysicaf, yn ogystal â'r dadansoddiad cysylltiedig, yn cael eu cynnwys yn amlwg yng Nghrynodeb y Weithrediaeth a Materion Allweddol i’w Hystyried yr adroddiad, gyda'r tablau a'r siartiau cysylltiedig i'w cynnwys mewn atodiad neu atodiadau ar wahân.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Wedi ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn helpu i roi mwy o eglurder i Aelodau'r Pwyllgor wrth ystyried adroddiadau salwch yn y dyfodol drwy dynnu sylw at y meysydd allweddol ar gyfer eu sylw, gyda chefnogaeth y dadansoddiad perthnasol mewn fformat mwy hygyrch.

572 ADRODDIAD CANOL TYMOR DIOGELU CORFFORAETHOL (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Cabinet ar 17 Tachwedd, 2022, ei chyflwyno gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol. Y ddwy brif elfen i'w hystyried oedd y prosesau recriwtio mwy diogel a'r hyfforddiant gwaith a oedd yn rhan o ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl.

Yn rhan o'r prosesau recriwtio mwy diogel, cynhaliodd AD yr asesiadau perthnasol ar draws ysgolion y Fro ac ati, ac yn sgil newidiadau a wnaed i'w phrosesau ei hun er mwyn sicrhau cydymffurfio gwell, gwelwyd cyfradd gydymffurfio o 100% yn Chwarter 2 ar draws Cyfarwyddiaethau Corfforaethol a'r Ysgolion.

O ran hyfforddi a dysgu, roedd modiwl newydd wedi cael ei ddatblygu a'i lansio'n ddiweddar yn gysylltiedig â diogelu. Byddai perfformiad y modiwl hwnnw'n cael ei olrhain, a'r canlyniadau'n cael eu rhannu â'r Pwyllgor ar ôl eu casglu.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd a'r adroddiad a oedd wedi'i atodi,

ARGYMHELLWYD – Nodi cyfeiriad y Cabinet ac adroddiad atodedig y Cabinet.

Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod ar y gwaith a wnaed i wella trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion.

573 DIWEDDARIAD PLATFFORM CYFARFOD CIVICO HYBRID (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd gan y Cabinet ar 17 Tachwedd, 2022 ei chyflwyno gan y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i'w hystyried gan y Pwyllgor. Yr oedd hefyd yn rhoi sicrwydd ynghylch y gwaith sylweddol a oedd wedi'i gyflawni hyd yma i weithredu platfform Cyfarfodydd Hybrid Civico, ac yn esbonio'r ymagwedd a'r gwaith a gyflawnwyd i brofi atchweliad, yn sail wrth benderfynu sut i symud ymlaen â chyfarfodydd cyhoeddus o fis Ionawr 2023 (y dyddiad 'byw' posibl oedd y 19eg o Ionawr 2023, pe bai'r cyfnod profi ac ati yn llwyddiant). Byddai'r argymhelliad terfynol yn cael ei wneud gan swyddogion y Cyngor ar ôl y Nadolig, gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu i wneud penderfyniad terfynol ynghylch gweithredu'r platfform.

Er mwyn cynnal y profion atchweliad roedd tîm prosiect mewnol wedi cael ei ffurfio o'r Gwasanaethau TGCh, y Gwasanaethau Democrataidd a'r Tîm Datblygu Busnes ar y cyd â Civico, darparydd y platfform, i ganfod problemau'n gysylltiedig â system Civico, a cheisio goresgyn y problemau hynny. Byddai Civico yn cymryd unrhyw gamau lliniaru cysylltiedig ar eu cost eu hunain. Roedd gwelliannau wedi'u gwneud ond roedd rhai problemau i'w datrys o hyd yn gysylltiedig â phlatfform Civico.

Ochr yn ochr â’r profion atchweliad, roedd swyddogion hefyd wedi bod yn edrych ar blatfformau eraill posibl i alluogi’r Cyngor i gynnal cyfarfodydd hybrid, gan gynnwys ymweliadau a chyswllt ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, i edrych ar eu profiadau gyda phlatfformau meddalwedd cyfarfodydd hybrid, a’r defnydd o nodweddion cyfieithu ar gyfer y Gymraeg ac ati, ond roedd nifer o Awdurdodau yn dal heb fod yn gwneud defnydd llawr o'r nodwedd hon.

Ar ôl cyflwyno’r eitem a gyfeiriwyd, codwyd y canlynol gan y Pwyllgor:

- Mewn ymateb i ymholiad yr Is-gadeirydd ynghylch 'Plan B' pe bai system Civico yn cael ei gweithredu, ond bod problemau pellach yn codi, esboniwyd bod opsiynau eraill dan ystyriaeth, fel platfformau cyfarfod Auditel, Public-i, Teams a Zoom ar gyfer cyfarfodydd hybrid.
- Gofynnodd y Cynghorydd Hanks a fyddai profion hefyd yn cael eu cynnal ar y cyfleuster dolen sain a'r gallu i Gynghorwyr (ac eraill) â chymhorthion clyw gael mynediad i Civico/y system sain yn Siambr y Cyngor mewn cyfarfodydd hybrid. Esboniwyd y byddai hyn wedi'i gynnwys mewn profion atchweliad, ac y cysylltwyd â Chynghorwyr â nam ar y clyw yn rhan o'r broses hon.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Franks at y costau a ysgwyddwyd yn nhermau amser swyddogion a oedd yn ymwneud â'r profion atchweliad, a'r angen i sicrhau bod Civico yn llwyr weithredol er mwyn osgoi unrhyw niwed i enw da'r Cyngor yn y dyfodol. Ar ben hynny, dylid ystyried opsiynau eraill, fel dychwelyd i gynnal cyfarfodydd yn y cnawd ochr yn ochr ag opsiynau o bell a hybrid. Yn anffodus, nid oedd unrhyw ffigurau ar gael ynghylch amser swyddogion / costau a ysgwyddwyd, a byddai hyn yn cael ei ystyried ymhen amser gyda Civico. Yn nhermau cyfarfodydd yn y cnawd vs cyfarfodydd hybrid, roedd deddfwriaeth yn ei gwneud yn orfodol i'r Cyngor gynnig cyfarfodydd hybrid a chyfarfodydd o bell fel opsiynau.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Dr. Johnson at gymhlethdod cynnal rhai cyfarfodydd ar ffurf hybrid drwy Civico, a'r heriau eraill yn gysylltiedig â hynny, a gofyn hefyd am yr amserlen a'r cyfarfodydd a fyddai wedyn yn cael eu cynnal ar ffurf hybrid/yn defnyddio system Civico pe bai'n cael ei chymeradwyo ac yn dod yn fyw ym mis Ionawr 2023. Pe bai'r profion atchweliad yn llwyddiannus, a Civico yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet, esboniwyd y byddai Civico yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfarfodydd hybrid a chyfarfodydd o bell o fewn y Cyngor o hynny allan.
- Pwysleisiodd y Cynghorydd Loveluck-Edwards fod y Cyngor yn edrych ar y problemau gyda Civico a chyfarfodydd hybrid - dyna pam bod yr adroddiad hwn wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor - er mwyn datrys y rhain. Dywedodd mai ond un agwedd ar waith Cynghorwyr oedd cyfarfodydd Pwyllgor ac ati, a bod blaenoriaethau uwch i'w hystyried a'u datrys, hy costau byw.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd a'r adroddiad a oedd wedi'i atodi,

ARGYMHELLWYD – Nodi cyfeiriad y Cabinet ac adroddiad atodedig y Cabinet.

Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod ar y diweddariad a’r dull gweithredu a ddefnyddiwyd.

574 ADRODDIAD CANOL TYMOR RHEOLI’R TRYSORLYS (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Cabinet ar 17 Tachwedd, 2022, fel yr oedd wedi'i chynnwys o fewn yr agenda, ei chyflwyno gan y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151. Pwrpas yr eitem oedd cyflwyno adroddiad canol blwyddyn ar weithrediadau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod am y cyfnod o 1 Ebrill hyd 30 Medi, 2022. Roedd hyn yn cynnwys meysydd allweddol fel diweddariad economaidd, adolygiad o strategaeth y Cyngor, trosolwg o wariant cyfalaf, portffolio buddsoddi, strategaeth benthyca ac ati. Er mai bwrw golwg yn ôl yr oedd yr adroddiad yn bennaf, yr oedd hefyd yn edrych i'r dyfodol, gan ystyried digwyddiadau neu heriau'r dyfodol.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd o'r adroddiad. Yn gyntaf, ni fu unrhyw newidiadau o ran polisi i'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn hanner cyntaf y flwyddyn. Roedd yr holl weithgarwch perthnasol wedi bod yn unol â Strategaeth a Chod Ymarfer y Cyngor. Roedd ystod eang o offer buddsoddi wedi cael eu defnyddio, ac oherwydd anwadalrwydd y farchnad a'r cynnydd mewn costau benthyca, ni fyddai'r Cyngor yn ymrwymo i unrhyw fenthyciadau newydd, ond hyn hytrach yn ystyried benthyca a chyllido'n fewnol yn unig. Cymharol ychydig o weithgarwch a gafwyd yn gysylltiedig â'r portffolio buddsoddi ac, ar y cyfan, roedd lefelau dyled y Cyngor fymryn yn uwch, ond roedd hyn yn gysylltiedig â benthyciadau cymharol fach, a chanddynt gyfraddau llog isel. Nid oedd unrhyw ddyled wedi'i haildrefnu eto. Yn olaf, wrth edrych ymlaen, byddai dangosydd darbodus newydd o’r enw Meincnod Atebolrwydd yn cael ei gyflwyno o 2023/24, a fyddai’n dangos bod y benthyciadau yr oedd y Cyngor wedi ymrwymo iddynt ar hyn o bryd yn llawer is na'i ofynion cyllido cyfalaf ac yn rhoi hyblygrwydd i'r Cyngor.

Ar ôl cyflwyno'r eitem, cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- Mewn ymateb i ymholiad y Cynghorydd Dr. Johnson ynghylch yr amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, y prif newid oedd bod yr amcangyfrif gwreiddiol yn seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf y cytunwyd arni yn ôl ar ddechrau 2022. Yn dilyn hynny, roedd llithriant o Raglen Gyfalaf 2021/22 wedi'i ddwyn ymlaen i 2022/23, ond oherwydd yr heriau amrywiol wrth gyflawni'r Rhaglen Gyfalaf newydd honno, roedd rhai prosiectau cyfalaf bellach wedi llithro i mewn i 2023/24. Roedd y cynlluniau a oedd yn cael eu cynnal wedi newid yn sylweddol, ac felly roedd cyfansoddiad y cyllid ar gyfer y cynlluniau hefyd wedi newid.
- Holodd y Cynghorydd Franks am y ffynonellau ar gyfer benthyca mewnol, y cadarnhawyd eu bod yn dod o ffynonellau ‘byd-eang’, fel bod benthyca mewnol yn cael ei gynnal gan falansau’r Cyngor ar ei fantolen, gyda chronfeydd wrth gefn o tua £100m, sef y ffynhonnell allweddol. Roedd ffynonellau eraill yn cynnwys cyllid Adran 106 a llif arian parod y Cyngor.

- Yn dilyn ymholiad yr Is-gadeirydd ynghylch grantiau a chyllid wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer y rhaglen gwariant cyfalaf newydd, roedd y Cyngor wedi derbyn dros gant o grantiau refeniw a chyfalaf, yr oedd rhai ohonynt yn deillio o gynigion ac eraill wedi'u dyfarnu heb orfod cynnig amdanynt. Roedd y rhain yn cynnwys grantiau cyffredinol yn ogystal â'r rhai a roddir ar gyfer prosiectau neu feysydd penodol, hy, ysgolion. Byddai atodlen o'r holl Grantiau Cyfalaf yr adroddwyd amdanynt ar hanner blwyddyn yn yr Adroddiad Trysorlys Canol Blwyddyn yn cael ei rhannu ag Aelodau'r Pwyllgor.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd a'r adroddiad a oedd wedi'i atodi,

ARGYMHELLWYD – Nodi cyfeiriad y Cabinet ac adroddiad atodedig y Cabinet.

Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

575 ANHEDDAU GWAG Y DRETH GYNGOR: 2023/24 (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd gan y Cabinet ar 1 Rhagfyr, 2022 ei chyflwyno gan y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151. Pwrpas yr eitem oedd galluogi'r Pwyllgor i ystyried a chynghori ynghylch y polisi a oedd i'w fabwysiadu ar gyfer y Dreth Gyngor ar gyfer anheddau heb eu meddiannu ar gyfer 2023/24, gan gynnwys codi premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer 2023/24 am eiddo a oedd wedi bod yn wag ers amser hir ac ar gyfer 2024/25 mewn perthynas ag ail gartrefi yn rhan o'r ymdrech i fynd i'r afael â phrinder tai ym Mro Morgannwg, ac ymdrin â'r galw am wasanaethau yr oedd ar rai o'r anheddau hyn eu hangen gan y Cyngor.

Byddai'r mesurau arfaethedig yn cynhyrchu refeniw ychwanegol i'r Cyngor y gellid ei ddefnyddio i gefnogi'r gyllideb gyffredinol neu gyfrannu at waith ymgysylltu a gorfodi a helpu i agor eiddo nas defnyddir i'r farchnad dai.

Roedd yr ymgynghoriad cysylltiedig yn fyw ar wefan y Cyngor ac ar agor tan y 6$^{ed}$ o Ionawr, 2023. Roedd y Cyngor hefyd wedi ysgrifennu at berchnogion eiddo gwag / ail gartrefi o fewn Bro Morgannwg ynghylch y mesurau arfaethedig hyn.

Ar ôl cyflwyno'r eitem, cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- Holodd y Cynghorydd Dr. Johnson ai ffigurau neilltuedig oedd y rhain, ac a fyddai'n rhaid dyrannu unrhyw arian a fyddai'n cael ei godi o'r taliadau dan sylw ar gyfer tai neu ddefnydd lleol. Mewn ymateb i hyn, dywedwyd nad oedd unrhyw refeniw a fyddai'n cael ei gasglu wedi'i neilltuo, ond y gobaith oedd y byddai'r arian a fyddai'n cael ei godi o gymorth i gryfhau mesurau gorfodi a gwasanaethau rheoleiddio eraill a ddarperir gan y Cyngor a phartneriaid. Mynegodd y Cynghorydd y dylid ystyried y gwersi a ddysgwyd gan Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru a oedd wedi gweithredu mesurau tebyg, a dywedwyd y byddai'r rheiny'n cael sylw.

- Gofynnodd y Cynghorydd Wood a oedd cofrestr gyhoeddus o eiddo o'r fath ac unrhyw fanylion i ddangos a fyddent o gymorth i fodloni anghenion tai / rhentu ceiswyr tai lleol. Ni wyddai neb a oedd cofrestr o'r fath ar gael, ond byddai'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu manylion niferoedd yr Ail Gartrefi a'r Cartrefi Gwag fesul Band y Dreth Gyngor a Thref / Cyngor Cymuned / ward Cyngor y Fro, ac awgrymodd yr Is-gadeirydd y dylid darparu'r rhain i'r holl Aelodau Etholedig yn rhan o'r broses o ymgynghori'n ehangach.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd a'r adroddiad a oedd wedi'i atodi,

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi cyfeiriad y Cabinet ac adroddiad atodedig y Cabinet.

(2) Rhoi i’r Aelodau Etholedig wybodaeth yn amlinellu nifer yr eiddo gwag a’r ail gartrefi, yn ôl ward, ym Mro Morgannwg.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Wedi ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn rhoi gwybodaeth i’r Aelodau Etholedig am anheddau gwag o fewn ardaloedd eu wardiau fel rhan o'r ymgynghoriad.

576 CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2023-24 (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Cabinet ar 17 Tachwedd, 2022, fel yr oedd wedi'i chynnwys ar yr agenda, ei chyflwyno gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, yn rhan o'r ymgynghoriad ar ddrafft y Cynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) 2023-24. Roedd y cynllun hwn yn cyd-fynd â phedwar amcan llesiant y Cyngor a oedd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol, ac a oedd yn rhychwantu'r cyfnod o bum mlynedd rhwng 2020 a 2025. Roedd drafft y CCB yn manylu ar y gweithgareddau a fyddai'n cael eu cyflawni yn 2023-24 er mwyn cyflawni'r amcanion hynny.

Roedd yr adroddiad yn esbonio sut roedd y Cynllun Cyflawni Blynyddol wedi cael ei ddatblygu, yr ymgynghoriad arfaethedig a'r amserlen ar gyfer y Cynllun.

Roedd drafft y CCB yn ffurfio 'pont' allweddol rhwng y Cynllun Corfforaethol a Chynlluniau Gwasanaeth y Cyngor, gan ddisgrifio'r prif weithgareddau a fyddai'n cael eu cyflawni yn 2023-24 i gyflawni amcanion ac ymrwymiadau'r Cyngor, a fyddai wedyn yn cael eu bwydo i'r Cynlluniau Gwasanaeth. Ffocws arbennig yn nrafft y CCB oedd tair her dyngedfennol (yn gysylltiedig â'r pedwar Amcan Llesiant), a fyddai'n ffocws allweddol i'r sefydliad yn 2023-24, sef costau byw, Prosiect Sero a chydnerthedd sefydliadol.

Byddai ymgynghoriad ar ddrafft y CCB yn cael ei gynnal hyd 8 Ionawr 2023, a fyddai'n cynnwys preswylwyr lleol, staff y Cyngor, partneriaid cyhoeddus, undebau llafur a Chynghorau Tref a Chymuned, yn ogystal â Chraffu ac Aelodau Etholedig Cyngor Bro Morgannwg.

Ar ôl cyflwyno'r eitem a gyfeiriwyd, dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson mai'r her wrth graffu ar ddrafft y CCB oedd canfod yr 'eithriadau' a'r pwyntiau a allai fod ar goll, yn ogystal â'r gymysgedd o ymrwymiadau manwl a llai eglur ac ati yn y CCB, a allai ddeillio'n rhannol o natur y Cynllun, a'r ffaith ei fod yn pontio rhwng y Cynllun Corfforaethol a Chynlluniau Gwasanaeth y Cyngor.  Eglurwyd, wrth ddatblygu'r CCB, fod angen taro cydbwysedd rhwng y camau / yr ymrwymiadau penodol a manwl iawn ar gyfer gwasanaethau unigol a'r camau ayyb ar gyfer meysydd a oedd yn cynnwys sawl llinell gwasanaeth, ac felly yr oedd angen iddynt fod yn fwy cyffredinol eu natur.  Byddai'r Cynlluniau Gwasanaeth unigol yn cynnwys rhagor o fanylion, ac ymgynghoriad yn cael ei gynnal â'r Cynghorwyr ar y rheiny cyn bo hir.  Gellid amlygu unrhyw agweddau coll neu eithriadau yn rhan o'r ymgynghoriad ar ddrafft y CCB.

Ar ôl ystyried yr eitem a gyfeiriwyd a'r adroddiad a oedd wedi'i atodi,

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft sydd yn Atodiad A adroddiad y Cabinet.

(2) Nodi'r dull ymgynghori a'r amserlen yn ogystal â'r dull a ddefnyddiwyd hyd yma i ddrafftio'r Cynllun Cyflawni Blynyddol a'r berthynas â Chynlluniau Gwasanaeth Blynyddol, fel y nodir yn yr adroddiad.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet ac adroddiad atodedig y Cabinet i ystyried y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft ar gyfer 2023-24.

577 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 2 (CAC) –

Roedd yr adroddiad perfformiad, fel y'i cyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, yn amlinellu cynnydd y Cyngor yn Chwarter 2 (Ch2) (1 Ebrill hyd 30 Medi, 2022) tuag at gyflawni ymrwymiadau ei Gynllun Cyflawni Blynyddol (2022/23) sydd wedi'u halinio ag Amcanion Llesiant ei Gynllun Corfforaethol.

Rhoddwyd statws perfformiad Gwyrdd i bob un o 4 o Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol yn Ch2 i adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd yma i gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022/23.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at Atodiad A yr adroddiad, a amlinellai'r perfformiad ar gyfer cyfnod Chwarter 2 yn erbyn ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2022/23 fel yr oeddent wedi'u halinio â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu

Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol. Rhoddodd enghreifftiau o rai o gyflawniadau'r Cyngor o dan y pedwar Amcan Llesiant, hy, gweithredu prydau ysgol am ddim, ennill statws Trailblazer Race Equality Matters, dechrau'r 'Hyb Mwy Na Bwyd' yn Llanilltud Fawr, ymhlith eraill.

Cafodd yr eithriadau o ran Perfformiad yn gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu (Atodiad B) hefyd eu hamlygu, a dyna fyddai'r ffocws ar gyfer cynnydd a gwelliant yn y dyfodol, fel yr amlinellwyd yn yr atodiad.

Roedd gwaith pellach yn cynnwys meysydd fel cynyddu gweithgareddau'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, gan gynnwys darparu 'mannau cynnes'.

Yn dilyn yr adroddiad, holodd y Cynghorydd Dr. Johnson ynghylch nifer o feysydd a godwyd yn rhan o'r adroddiadau eithrio, gan gynnwys prosiectau digidol a chysylltiedig â TG, ac ynghylch datblygu fframwaith gyda'r Trydydd Sector, a'r ffaith bod cyfarfod Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol wedi'i ohirio ers mis Mai 2022. O ran y gwaith ar brosiectau TGCh / Digidol, roedd gwaith yn cael ei wneud er mwyn cyflawni'r meysydd allweddol / eithriadau hyn, ond byddai'r gwaith i unioni ac i sefydlu'r gofynion craidd yn gyflymach mewn rhai achosion nag eraill, neu byddai angen cefnogaeth gan asiantaethau eraill i gyflawni'r gwaith hwnnw. O ran y Cydbwyllgor, byddai cysylltiad yn cael ei wneud â'r Gwasanaethau Democrataidd i weld pryd y byddai'n cyfarfod nesaf, ynghyd â gwaith pellach i adeiladu fframwaith ehangach â gwaith y Cyngor a'i berthynas â'r Trydydd Sector, er mai'r ffocws ar hyn o bryd oedd rhyngweithio ar unwaith ac yn uniongyrchol â'r sector hwn i gefnogi'r gymuned, hy, drwy fanciau bwyd.

Teimlai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fod y Cyngor wedi perfformio'n dda ar y cyfan yn wyneb nifer o heriau, ac roedd hi'n bwysig edrych ar yr agweddau cadarnhaol yn ogystal â'r eithriadau, a dymunai'r Pwyllgor ddiolch i staff yr adran Dysgu a Sgiliau am ehangu'r cynnig prydau ysgol am ddim i'r holl ddisgyblion yn y dosbarth derbyn ac i flynyddoedd 1 a 2 ar ddechrau tymor mis Medi, o flaen Awdurdodau Lleol eraill.

Ar ôl ystyried yr adroddiad,

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi’r canlyniadau perfformiad a’r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 yn unol ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) Nodi’r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

578 ADRODDIAD CRAFFU CYNLLUN LLESIANT DRAFFT BGC (CAC) -

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yn esbonio sut roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) wedi datblygu ei Gynllun Llesiant drafft, a'r modd y defnyddiwyd yr Asesiad Llesiant a gyhoeddwyd yn gynharach eleni a gwaith ymgysylltu, gan gynnwys partneriaid, hy, cyrff y Trydydd Sector a Chynghorau Tref a Chymuned yn sail ar gyfer hynny.

Roedd yr adroddiad yn rhoi esboniad byr o gynnwys y Cynllun drafft, gan gynnwys yr amcanion, y ffrydiau gwaith a'r camau â blaenoriaeth (19 cam), ar gyfer ei gyfnod o bum mlynedd (2023-28), a oedd yn cynnwys tri amcan newydd: 1) Bro sy'n fwy cydnerth a gwyrdd; 2) Bro sy'n fwy egnïol ac iach; a 3) Bro sy'n decach ac yn fwy cysylltiedig.

Lansiodd y BGC ei gyfnod ymgynghori 12 wythnos ar gyfer y Cynllun Llesiant drafft ar 7Tachwedd, 2022 (y byddai'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor hefyd yn rhan ohono, yn ogystal â'r arolwg ar-lein, ymgynghori â chyrff statudol a grwpiau cymunedol). Roedd yr adroddiad hefyd yn manylu ar yr amserlen ar gyfer ymgynghori ar y Cynllun drafft a'r dull a oedd yn cael ei fabwysiadu, fel yr amlinellwyd gan Gyfarwyddwr y Pwyllgor.

Wedi i'r adroddiad gael ei gyflwyno, cododd Aelodau'r Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- Mewn ymateb i ymholiad y Cynghorydd Hanks ynghylch pa mor hir y byddai'r swyddog Bro Oed-Gyfeillgar yn cael ei ariannu gan LlC, dywedwyd y byddai'r swydd yn cael ei hariannu am weddill 2021/22 ac am ddwy flynedd arall ar ôl hynny. Byddai rhagor o wybodaeth am wasanaethau oed-gyfeillgar yn cael ei rhannu â'r Pwyllgor ymhen amser.
- Pwysleisiodd y Cynghorydd Loveluck-Edwards pa mor bwysig oedd y broses ymgynghori ehangach a'r ymgysylltu dyfnach â chymunedau a grwpiau amrywiol o fewn y Fro er mwyn ceisio siapio'r Cynllun, gan gyfeirio at ei phrofiadau yn yr ymgynghoriad hwn fel Eiriolwr dros Bobl Hŷn.
- Cododd y Cynghorydd Dr. Johnson fater yn gysylltiedig â lleoliad ardaloedd yn y Barri sydd yn y categori Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lefel Is (LSOAs). Roedd Cynllun Llesiant drafft y BGC fel arfer yn disgrifio'r rhain fel ardaloedd yn Nwyrain y Barri, ond nid oedd hynny'n wir mewn gwirionedd. Eglurwyd y byddai'r pwyntiau hyn yn cael sylw, ac y byddai dull mwy manwl gywir a oedd yn canolbwyntio ar fân nodweddion yn cael ei fabwysiadu wrth fapio'r ardaloedd hynny yn fersiwn derfynol y Cynllun. Byddai hyn hefyd o gymorth i sicrhau dealltwriaeth gliriach o'r ardaloedd hynny a'u cymunedau, gan fynd i'r afael â'r problemau sydd ganddynt yn gysylltiedig ag amddifadedd.
- Amlygodd y Cynghorydd Dr. Johnson a'r Cynghorydd Wood, y naill a'r llall, fod angen cael meincnodau neu amcanion, metrigau, targedau a chanlyniadau mesuradwy sydd wedi'u diffinio'n glir er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cyflawni ac yn gweithredu'n effeithiol er budd pobl yn y Fro, ac y gellir mesur ei lwyddiannau'n fanwl gywir. Eglurwyd bod heriau o'r fath wedi cael eu codi gan bartneriaid cyn hyn yn rhan o'r broses ymgynghori hon, a bod gwaith eisoes ar y gweill i ddatblygu dangosyddion, ar y cyd â

metrigau eraill, astudiaethau achos yn gysylltiedig â chyflawniad ac ati. Byddai'r rheiny'n mesur perfformiad yn fwy clir ac effeithiol, gan sicrhau drwy hynny fod y Cynllun ar amser ac ar y trywydd iawn o ran ei gyflawniad, perfformiad a nodau.

- Gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson a'r Cadeirydd a fyddai 'dogfen fyfyrdodau' ar gael gan y BGC er mwyn gwerthuso'r Cynllun Blaenorol (2017-2022). Gofynnodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd rannu adroddiadau blynyddol blaenorol y BGC â'r Aelodau ar gyfer y cyfnod perthnasol, a dywedodd y byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor yn ddiweddarach yn 2023. Awgrymwyd hefyd y dylid gwahodd aelodau'r BGC i siarad â'r Pwyllgor neu sesiwn ehangach â'r holl Aelodau Etholedig i drafod eu gwaith / eu prif brosiectau er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch y BGC a'r Cynllun Llesiant.
- Yn rhan o'r Cynllun, pwysleisiodd yr Is-Gadeirydd pa mor bwysig yw ymgynghori â phobl ifanc a grwpiau ieuenctid ynghylch materion amrywiol, er mwyn cael ystod ehangach o adborth, gan nodi bod gwaith ymgynghori eisoes yn cael ei gynnal â phobl ifanc ar y Newid Hinsawdd ar gyfer y Cynllun drwy Wasanaeth Ieuenctid y Fro.

Ar ôl ystyried yr adroddiad,

ARGYMHELLWYD –

(1) Rhoi'r adborth canlynol ar y Cynllun Lles drafft i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar ôl cyfeirio i'r Cabinet:

- Yr angen i sicrhau bod Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn cael eu hadrodd yn gywir fel rhan o Gynllun Lles y BGC.
- Pwysigrwydd sefydlu amcanion, targedau, a chanlyniadau mesuradwy a chlir er mwyn gallu asesu a mesur y cynnydd sy'n cael ei wneud gan y Cynllun Lles yn iawn dros ei oes.
- Canfod a fyddai'r BGC yn gwneud Dogfen Myfyrdodau (2017 i 2022) i werthuso cyfnod olaf y Cynllun Lles, er mwyn gweld yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn sydd heb, ac i'r Pwyllgor gael golwg ar hyn.

(2) Gwahodd aelodau'r BGC i siarad â'r Aelodau Etholedig ynglŷn â'u gwaith a'u prosiectau allweddol, ac i godi mwy o ymwybyddiaeth o'r BGC a'r Cynllun Lles.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Er mwyn galluogi'r Pwyllgor Craffu i roi adborth ar Gynllun Lles drafft y BGC fel rhan o'r broses ymgynghori ac i'r Cabinet fod yn ymwybodol o ystyriaethau'r Pwyllgor.

(2) Er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith yr Aelodau Etholedig o waith y BGC a'i Gynllun Lles.